NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ceritinib ar gyfer canser yr ysgyfaint nad yw'r celloedd yn fach ALK-positif sydd heb ei drin

24 Ionawr 2018

Mae ceritinib (Zykadia) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â chanser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig (ALK)-positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach, sydd heb ei drin.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Darllenwch newyddion NICE i ddysgu sut y bydd y canllawiau hyn o gymorth.

Dilynwch ni ar Twitter a Facebook.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030555
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2799-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights